Archwilio Cymru
Audit Wales

Ffurflen Ymateb y Cyngor

Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion gan Archwilio Cymru

Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Teitl yr adroddiad: 'Cyfle wedi'i Golli' – Mentrau Cymdeithasol

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2022

Cyfeirnod y ddogfen:

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A1	I gael y gorau o ariannu a'u gwaith gyda Mentrau Cymdeithasol mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod y trefniadau a'r systemau cywir ar waith. Rydym yn argymell bod swyddogion awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad 2 i:	Rhaid i ymagwedd y Cyngor fod yn un holistaidd a chydlynus. I'r diben hwn, rhaid i'r weledigaeth a geir yn y Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant yng nghyswllt hynny fod yr un mor berthnasol i bob maes gwasanaeth. Bydd y broses o nodi'r amcanion hyn yn cynnwys ystod o asiantaethau partner a sefydliadau ac yn galluogi trefniadau ac arferion cydweithio yn y dyfodol.	31/03/2025	Greg Jones

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	• hunanwerthuso ymgysylltiad, rheolaeth, perfformiad ac ymarfer cyfredol Mentrau Cymdeithasol; • nodi cyfleoedd i wella cydweithio; ac ymarfer; • drafftio ar y cyd a rhoi cynllun gweithredu ar waith gan nodi'n glir y ffrâm amser a'r cyfrifoldebau er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodir yn yr hunanwerthusaid.	I gyflawni hyn, bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd dangosyddion perfformiad penodol yn mesur y buddion o gydweithredu ac arferion cydweithio. Rhaid i unrhyw gydweithredu a chydweithio ddangos gwerth ychwanegol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion a chyd-fynd â gweledigaeth y Strategaeth Gorfforaethol. **Cam Gweithredu 1**: Gwerthusiad cynhwysfawr o'r trefniadau cyfredol ar gyfer mentrau cymdeithasol ar draws pob maes gwasanaeth a nodi unrhyw fylchau ar gyfer cydweithio (e.e. cludiant cymunedol) a chyfleoedd i gydweithredu. Byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrwng allweddol i gyflawni'r dasg hon. Comisiynwyd Cwmpas gan Gyngor Sir Ceredigion er mwyn cynnal ymarfer cwmpasu a chynhyrchu adroddiad i hysbysu'r Cyngor yn ei ddull o datblygu mentrau cymdeithasol a micro yn y sector Gofal Cymdeithasol yng Ngheredigion. Cwblhawyd yr adroddiad hwn ym mis Ebrill 2023 ac fe adnabu cyfres o argymhellion o'r astudiaeth i cynorthwyo wrth gefnogi Cyngor Sir Ceredigion i ddatblygu'r rhaglen Catalydd Gofal Ceredigion. Mae'r rhaglen hon yn ffocysu ar sefydlu Mentrau Cymdeithasol a Mentrau Micro. **Yn dilyn cwblhau'r adroddiad, teimlwyd fod Cam 1 wedi'i gwblhau.**		

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
		Cam Gweithredu 2: Llunio Cytundebau Lefel Gwasanaeth priodol ar y cyd gydag unrhyw sefydliad neu gorff partner allanol a all gyflenwi gwasanaethau yn fwy effeithlon ac effeithiol nag y gall y Cyngor eu cyflawni yn annibynnol. Cyflwynwyd cynnig ar y cyd llwyddiannus rhwng Cyngor Sir Ceredigion a CAVO am gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae'r cyfrifoldeb pennaf yn disgyn ar Gyngor Sir Ceredigion gyda CAVO yn arwain at ddatblygu darpariaeth Mentrau Cymdeithasol a Chyngor Sir Ceredigion yn arwain ar ddatblygu Mentrau Micro. Mae'r Cyngor wedi comisiynu Planed i gefnogi wrth ddatblygu Mentrau Micro a bydd y ffocws blaenorol o'r gwaith yn eu gweld yn gweithio gyda chohort a Gynorthwywyr Personol sy'n cael eu cyflogi drwy Daliadau Uniongyrchol. **Cam Gweithredu 3**: Nodi mesurau perfformiad priodol a fydd yn dangos gwerth ychwanegol a gwerth am arian o unrhyw drefniant menter cymdeithasol. Fel rhan o'r cyllid a ddarperir trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredinol y DU crewyd mesur perfformiad i greu 20 menter newydd erbyn Rhagfyr 2024. **Diweddarwyd 17 Mai 2024** Fel rhan o'r gwaith a gomisiynwyd i'w wneud gan Planed, mae gennym 18 Menter Micro yn ein cyfeiriadur (dolen isod) gyda 2 ymholiad ychwanegol yn cael eu datblygu.		

		PLANED | Directory of Care and Support Enterprises in Ceredigion Mae Planed hefyd yn mynychu nifer o grwpiau cymunedol mewn modd rhyngweithiol, ac fe fyddant yn mynychu'r ffeiriau gwaith yn Aberystwyth ac Aberteifi er mwyn hyrwyddo Mentrau Micro ac mae nhw'n mynychu mewn partneriaeth gyda'r Tîm Taliadau Uniongyrchol y cyngor. **20 Medi 2024** Fel rhan o gais diweddar am gyllid ychwanegol i gefnogi gwaith y Prosiect Catalydd Gofal, mae cyfres newydd o fesurau yn cael eu datblygu i ddangos tystiolaeth o'r gwaith hwn, gyda'r bwriad o sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y prosiect a chefnogi Mentrau Micro a Chymdeithasol yng Ngheredigion.		
A2	I yrru gwelliant rydym yn argymell bod yr awdurdod lleol yn: • cymeradwyo'n ffurfiol y Cynllun Gweithredu wedi'i gwblhau; • adrodd ar, monitro a gwerthuso perfformiad yn rheolaidd mewn cyfarfodydd craffu; ac • adolygu gweithredoedd a thargedau yng ngoleuni gwerthusiad ac asesiad yr awdurdod o'i berfformiad.	Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu gweithredu ar gwblhau'r tasgau sy'n gysylltiedig ag A1 uchod. Mae'r Prosiect Catalydd Gofal yn ffurfio rhan o'r rhaglen Llesiant Gydol Oes, a thrwy hynny'n adrodd yn fisol fel rhan o'r Bwrdd Rhaglen gyda gweithgaredd sydd wedi'i ffocysu yn cael ei reoli'n weithredol gyda'r gofalwyr a'r Grŵp Llywio Cymunedau. **Diweddarwyd 17 Mai 2024** Mae'r Prosiect Catalydd Gofal bellach yn ffurfio rhan o Gynllun Busnes Lefel 1 Porth Cymorth Cynnar ac o ganlyniad i hyn fe fydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Perfformiad yn chwarterol. **Diweddariad 20 Medi 2024** Fel rhan o gam nesaf y Prosiect Catalydd Gofal, Bydd Cwmpas a CAVO yn trefnu cyfres o 3 Gweithdy Menter Gymdeithasol yn ystod yr Hydref – y cyntaf ar gyfer y Trydydd Sector, ac yna Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Bydd canlyniadau'r trafodaethau hyn yn llywio'r ffordd orau o gynnal deialog yng Ngheredigion rhwng comisiynwyr gwasanaeth a	31/03/2025	Greg Jones

		darparwyr mentrau cymdeithasol. Er mwyn i'r gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o'r Prosiect Catalydd Gofal fynd yn ei flaen, mae'r prosiect wedi archwilio'r cyfle i sicrhau cyllid grant drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) y mae Ceredigion Iachach wedi cytuno ar y cyllid. Golyga hyn y gall y prosiect redeg tan fis Mawrth 2027 a bydd mewn sefyllfa i ddangos tystiolaeth buddion defnyddio Mentrau Cymdeithasol a Micro gyda'r bwriad o ymgorffori'r dulliau i mewn i gyllid craidd.		

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A3	I sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau A.16 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol, rydym yn argymell ei fod yn adrodd ar blaenoriaethau'r dyfodol yn dilyn y gwerthusiad o'i Gynllun Gweithredu gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.	Mae ein gweledigaeth yn ymestyn yn ehangach na'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Fodd bynnag, bydd data a gesglir gan Dîm Perfformiad Corfforaethol yr Awdurdod yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Cymdeithasol, ac felly'n cyflawni Gwasanaethau cyfrifoldebau Adran 16. Sefydlwyd gweithio partneriaethol gyda Cwmpas, Fforwm Adran 16 Rhanbarthol Gorllewin Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y fforwm hwn ar 9 Tachwedd 2023. Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn cyflwyno dull gweithredu tuag at A16 yng nghyfarfod nesaf y fforwm. **Diweddariad 17 Mai 2024** Rydym yn parhau i weithio fel rhan o fforwm rhanbarthol Adran 16 ac oherwydd maint Ceredigion teimlir mai'r dull rhanbarthol sydd fwyaf buddiol. CAVO yw'r asiantaeth arweiniol ar gyfer y gwaith hwn ac maent yn darparu adborth rheolaidd i'r grŵp llywio Catalydd Gofal ar weithgarwch hyrwyddo o ran y Mentrau Cymdeithasol, mae peth o'r gweithgaredd hwn yn cynnwys gweithio gyda CWPAS i ddatblygu Cynhadledd Menter Gymdeithasol, mae cynlluniau hefyd ar waith ar gyfer cynnal gweithdai gyda'r trydydd sector i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol. **20 Medi 2024** Rydym yn parhau i fod yn rhan o'r Fforwm Rhanbarthol Adran 16, a byddwn yn parhau i ystyried y darlun ehangach a'r potensial ar gyfer Fforwm Adran 16 Ceredigion.	31/03/2025	Greg Jones